Gwanwyn 2013

# Mwd

## Tan-da!! Mae dy le chwarae wedi'i gwblhau!



Mae RSPB Conwy yn cael mêc-ofyr ac yn well fyth, mae bron wedi'i gwblhau! Wyt ti wedi ei weld?! Rwyt ar fin cael mwy o hwyl ar ein gwarchodfa natur nag erioed o'r blaen.

Mae gan RSPB Conwy 11 project i'w cwblhau cyn yr haf, sy' ddim yn bell i ffwrdd na'di?! Ond mae popeth yn mynd yn iawn hyd yma. Mae staff, adeiladwyr, gwirfoddolwyr, artistiaid a llawer mwy wedi bod yn brysur dros ben yn trawsnewid ein gwarchodfa natur i fod yn lle gwych. Gelli fwynhau bod yn agos at fywyd gwyllt a chael lot o hwyl gyda theulu a ffrindiau.

O'r 11 prosiect, rydym wedi gorffen wyth...da ynte?!

**A elli di ddyfalu beth ydyn nhw?**

(Atebion ar yr ail dudalen)

## Nyth Mawr, Nyth Bach

(Dyma yw enwau y ddwy ffram ddringo newydd)



### Dychmyga dy fod yn aderyn, yn sgrafangu yn y nyth...

...neu dychmyga fod gennyt jungle-gym dy hun, fel tsimpansî. Dringa, sigla, hercia, neidia, ac wedi diwrnod hir o chwarae, dos i gysgu, ac ymlacio ar un o'r boncyffion yn union fel mae tsimpansî'n ei wneud.

Dyma dy ardal chwarae – mwynha fo, pa bynnag ffordd yr hoffet ti!

TESCO

Cymunedau a Natur
Communities and Nature

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

ERDF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

Mae Cysylltiadau Conwy yn fenter a ariennir yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Llywodraeth Cymru, ac mae'n rhan o brosiect strategol Cymunedau a Natur Cyfoeth Naturiol Cymru.

# Y Maes

Mae dy ardal chwarae wedi'i lleoli ar 'Y Maes', neu "sgwar pentref" y warchodfa. A fedri di gofio sut olwg oedd ar hwn y Nadolig diwethaf?





## Faint o'r rhain ddyfalaist di?!

1. Paneli solar ar y siop goffi
2. Gwella y maes parcio
3. Adeiladu man gwylio newydd
4. Safle digwyddiadau a phicnic newydd
5. Adeiladad o fêls gwellt
6. Adeiladu bryncyn
7. Adeiladu lle chwarae
8. Tegi
9. Adeiladu twnel
10. Murlun Tal-y-fan
11. Gwaith celf cylchfan



## Rydym yn falch o gyflwyno...Efa a Peter, ein sêr deledu cysylltiadau Conwy!

Fe gafon ni ddiwrnod gwych yn ffilmio gydag Efa a Peter a cwmni ffilm Tape. Gallwch weld y ffilm ar http://tapetv.yourlocal.tv.

TAPE Community Music and Film



# Tŷ Gwylio

Mae'r gwaith o adeiladu un o uchafbwyntiau'r project wedi cychwyn... yr adeilad bêls gwellt! A fedri di ddyfalu pa ddeunydd byddwn ni'n defnyddio ar ben y bêls yn yr adeilad gwyrdd arbennig hon i adeiladu'r waliau mewnol? Mwy am yr adeilad gwyrdd arbennig iawn yma yn y Mwd nesaf.





# Dyfala'r rhywogaeth serameg

## Edrycha ar y crochenweithiau rhyfeddol yma!

**Gwaith grŵp o bobl ifanc o'r elusen Afasic ydyn nhw, a weithiodd gydag artist lleol, Sue King.**

**Maen nhw wedi bod yn ddigon caredig i roi'r crochenweithiau yma inni addurno waliau tu mewn Y TŷGwylio, sy'n cael eu creu o dair haenen o glai.**

Eisiau cipolwg ar sut mae'r crochenweithiau'n edrych?!
A fedri di ddyfalu rhywogaeth pob un?

Diolch yn FAWR i'r bobl ifanc a grëodd nhw!



## Rhywogaethau

### cysyllta'r enw i'r serameg

1. Chwilen un
2. Robin Goch
3. Llyffant
4. Gwas y Neidr
5. Crëyr Bach
6. Chwilen dau
7. Merlen un
8. Carlwm
9. Chwilen dau
10. Pioden y Môr
11. Merlen dau
12. Cwningen



Mae Afasic Cymru'n cynorthwyo rhieni ac yn darparu gwybodaeth ar amhariad lleferydd ac iaith yng Nghymru. Mae grŵp o Afasic yn aelodau o'r Backstage Youth Club, rhan o Tape Community Music and Film, Hen Golwyn

# Cyfweliad gydag India



Mae grŵp Fforwyr Bywyd Gwyllt RSPB Conwy wedi helpu hel syniadau ar gyfer mêc-ofyr Conwy. Roedd India, aelod y Fforwyr Bywyd Gwyllt, yn 10 oed yr adeg honno. Mae India, rwan yn 15 oed, yr un mor brysur gyda'r Fforwyr Bywyd Gwyllt. Gofynnon iddi am ei barn ar y warchodfa rwan:

### Pum mlynedd yn ôl, pan ddechreuon nhw sôn am wella'r warchodfa, beth oedd dy syniadau di?

Roeddwn i a fy ffrind Lewis, yn gobeithio am le chwarae! Cawsom ddiwrnod Fforwyr Bywyd Gwyllt arbennig ar gyfer dylunio lle chwarae allan o glai a thameidiau pren. Roedd yn lot o hwyl a daeth llawer o syniadau da ohono.

### Beth rwyt ti'n ei feddwl o'r mec-ofyr?

Dwi'n meddwl ei fod yn anhygoel! Mae Tegi'n edrych yn dda. Fedrwch chi ddim curo draig! Mae'r ffrâm ddringo a'r twnel yn edrych yn hwyl hefyd, fedrai ddim aros nes gai go arnyn nhw! Mae'r mêc-ofyr yn llwyddiant! Dwi'n siwr y bydd yn ysgogi mwy o bobl i ymweld. Bydd yn apelio fwy at blant iau hefyd, ac er dwi'n 15 oed, dwi'n edrych ymlaen at drio'r lle chwarae!

### Oes gan dy ffrindiau ddiddordeb mewn natur fel ti?

Mae gen i ychydig o ffrindiau sy'n mwynhau natur. Lewis a Luca ydi dau ohonyn nhw; nes i gyfarfod nhw ar y warchodfa. Rydym wedi bod yn mynd i clwb Fforwyr Bywyd Gwyllt ers blynyddoedd, ac wedi bod yn trio cael pobl eraill i ymweld â'r warchodfa.

### A fyddet ti'n newid unrhyw beth?

Dwi'n meddwl ei fod i gyd yn edrych yn dda! Faswn i ddim yn newid dim...mae am fod yn llwyddiant mawr!

# Yn y Mwd nesa'...

Cyfarfod Efa a Peter, ein sêr deledu, a darganfod sut adeiladon ni'r adeilad bêls gwair rhyfeddol a pham mae adeiladu gyda gwair yn well ar gyfer yr amgylchedd...a llawer mwy.



## Digwyddiadau ar y gweill...

### Diwrnod Darganfod RSPB Conwy, Dydd Sadwrn Awst 31ain:

Diwrnod llawn gweithgareddau difyr. Darganfyddwch y lle chwarae newydd a sut i wneud swigod enfawr! Mae peth amser i fynd eto, ond rydym ni i gyd wedi cynhyrfu dros ben! Rho'r dyddiad yn dy galendr!



Hoffai RSPB Cymru ddiolch i'r rheini sydd wedi cyfrannu tuag at gefnogi gwarchodfa natur ac adnoddau ymwelwyr RSPB Conwy, gan gynnwys Ystad y Goron, Ymddiriedolaeth Cemlyn Jones, Amgylchedd Cymru, Tesco, Cyngor Tref Conwy a Grŵp Cefnogi RSPB Conwy.

Mae'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) yn elusen gofrestredig: Lloegr a Chymru rhif 207076, yr Alban rhif SC037654

## Arhoswch gyda ni

www.rspb.org.uk/conwy
conwy@rspb.org.uk – 01492 584091

Darganfyddwch ni ar Facebook

Dilynnwch ni ar Twitter @rspbconwy #conwyconnections